# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Twristiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Dydd Mercher 29 Medi 2021 |
| **Lleoliad:** | Senedd a Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Sam Rowlands (SR) | AS Gogledd Cymru |
| Mark Isherwood (MI) | AS Gogledd Cymru |
| Carolyn Thomas (CT) | AS Gogledd Cymru |
| Janet Finch-Saunders (JFS) | AS Aberconwy |
| Tom Giffard (TG) | AS Gorllewin De Cymru |
| Mabon ap Gwynfor (MAG) | AS Dwyfor Meirionnydd |
| Samuel Kurtz (SK) | AS Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Zak Weaver (ZW) | Staff Cymorth Sam Rowlands AS |
| Dale Thomas (DT) | Staff Cymorth Lee Waters AS |
| Rebeckah Fudge (RF) | Staff Cymorth Tom Giffard AS |
| Ryland Doyle (RD) | Staff Cymorth Mike Hedges AS |
| Glyn Preston (GP) | Staff Cymorth Jane Dodds AS |
| Suzy Davies (SD) | Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Greason-Walker (AGW) | Eiriolwr Polisi, Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Amanda Whittle (AW) | Pennaeth Polisi y Dreth Gyngor, Llywodraeth Cymru |
| Deborah Carter (DC) | Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol |
| Beth Pailey (BP) | PASC UK |
| Neil Harris (NH) | English UK Wales |
| Emma Thornton (ET) | Prif Weithredwr, Ymwelwch â Sir Benfro |
| Val Hawkins (VH) | Prif Weithredwr, Twristiaeth Canolbarth Cymru |
| Helen Charlesworth (HC) | Parciau Gwyliau a Chartrefi Preswyl Prydain |
| Louise Dixey (LD) | Prosiect NTG |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Jane Dodds | AS Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rhun ap Iorwerth | AS Ynys Môn |
| Delyth Jewell | AS Dwyrain De Cymru |
| Ken Skates | AS De Clwyd |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Croeso a chyflwyniadau:

- Croesawodd SR bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd SD yn ei rôl fel Cadeirydd newydd Cynghrair Twristiaeth Cymru.
- Diolchodd SD i bawb am fod yn bresennol a nododd werth y grŵp trawsbleidiol, a'r berthynas agored a gonest sy'n rhaid ei meithrin â Llywodraeth Cymru. Dywedodd SD y bydd y Gynghrair yn gweithredu fel llais y diwydiant twristiaeth, a hynny'n llais unedig ar draws busnesau a phleidiau. Hefyd, ailadroddodd SD fod y diwydiant wedi dioddef ergyd drom gan Covid-19 a bod bylchau sylweddol yn atal y gwaith o gyflawni strategaeth dwristiaeth lwyddiannus.
- Croesawodd SR y disgrifiad o grŵp trawsbleidiol anffurfiol sy'n cydweithio i hyrwyddo materion sy'n effeithio ar y sector twristiaeth.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Trethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo – Cyflwyniad a Thrafodaeth:

- Cyflwynodd SR DC, sy'n gweithio ym maes diwygio cyllid llywodraeth leol yn Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd DC ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo, cyn rhoi cyflwyniad PowerPoint 9 tudalen o hyd i helpu i lywio'r drafodaeth ar y mater hwn.
- Pwysleisiodd DC mai dim ond un rhan o'r system ehangach yw ail gartrefi a llety gwyliau, a dim ond mewn ffordd gyfyngedig y gellir dylanwadu ar y farchnad wyliau drwy'r system dreth leol. Hefyd, ailadroddodd fod awdurdodau lleol, ers mis Ebrill 2016, wedi cael pwerau disgresiwn i godi premiymau hyd at 100 y cant ar ail gartrefi, ac ar hyn o bryd mae un ar ddeg awdurdod lleol yn gwneud hyn.
- Roedd DC yn awyddus i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ofyn barn pawb sydd â diddordeb yn y materion hyn er mwyn clywed amrywiaeth eang o safbwyntiau.
- Croesawodd AGW y cyflwyniad a nododd fod yr ymgynghoriad wedi'i drafod yng nghyfarfod diweddar Cynghrair Twristiaeth Cymru. At hynny,

ychwanegodd fod y Gynghrair yn awyddus i drafod y mater hwn, ac y bydd yn ymateb i'r ymgynghoriad.

- Nododd AGW hefyd fod llawer o fusnesau hunanarlwyo yn fusnesau bach a micro, gan bwysleisio ei bod yn hynod bwysig nad yw'r ymgynghoriad yn rhwystro gweithgarwch busnesau cyfreithlon.
- Mewn ymateb i'r cyflwyniad, nododd SD nad oedd am weld Cymru o dan anfantais o'i chymharu â Lloegr, sydd eisoes yn digwydd gyda'r rheol 70 diwrnod. Anogodd SD gydraddoldeb ar draws y ffin a chamau i atal anfantais gystadleuol.
- Dywedodd MI ei fod, dros y blynyddoedd, wedi gweithio'n agos gyda llawer o fusnesau hunanarlwyo, sy'n aml yn ei chael hi'n anodd yn ystod y blynyddoedd cynnar oherwydd bod yr ochr weinyddol yn gallu bod yn feichus. Gofynnodd MI pa ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i hyn.
- Roedd DC yn cydnabod bod llawer mwy o ffocws ar y materion hyn erbyn hyn, ac atgoffodd yr Aelodau nad yw canfyddiadau'r ymgynghoriad wedi'u pennu ymlaen llaw. Hefyd, bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar yr ymateb i'r ymgynghoriad.
- Soniodd SR am drothwyon TAW Cyllid a Thollau EM, gan ofyn sut y bydd yr ymgynghoriad yn ymdrin â'r mater hwn.
- Dywedodd DC y bydd y mater hwn yn rhan o'r ymgynghoriad, ond ailadroddodd hefyd mai dyletswydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yw sicrhau bod y trothwyon yn gywir.
- Mynegodd VH ei siom fod ail gartrefi yn effeithio ar y diwydiant twristiaeth, a bod angen datgyfuno'r gwahanol faterion sy'n effeithio ar y sefyllfa. Dywedodd hefyd fod pryderon gwirioneddol wedi'u mynegi, yn enwedig gan bobl yn y sector amaethyddol, y gallai unrhyw newidiadau gael effaith ariannol negyddol ar fusnesau.
- Dywedodd DC mai nod yr ymgynghoriad yw casglu mwy o wybodaeth.
- Diolchodd MAG i bawb am y drafodaeth hyd yma a nododd nad oes diffiniad ar hyn o bryd i ddisgrifio beth yw ail gartref, tra yn y Swistir maent yn mynd i'r afael â'r broblem hon drwy ddisgrifio'r hyn nad yw'n cyfrif fel ail gartref. Hefyd, nododd MAG fod angen edrych ar ardrethi annomestig a gofyn sut y bydd y broses hon yn cael ei goruchwylio. Atebodd DC fod awdurdodau lleol ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rhannu'r cyfrifoldeb am oruchwyliaeth.
- Dywedodd BP fod diffyg eglurder ar hyn o bryd oherwydd nid yw eiddo'n cael ei gofrestru'n ffurfiol, ac ychwanegodd fod angen ystyried cyflwyno cynllun cofrestru gorfodol. Atebodd DC y bydd gwaith yn cael ei wneud i edrych ar y cynnig hwn maes o law.
- Gofynnodd SD faint o eiddo gwag sy'n cael ei ddefnyddio eto ers cyflwyno premiymau'r dreth gyngor a nododd nad yw hi wedi clywed am unrhyw sgyrsiau yn cael eu cynnal gyda throsglwyddwyr eiddo lleol.
- Amlinellodd DC fod y dystiolaeth yn gyfyngedig ar hyn o bryd a bod angen gwneud mwy i edrych ar effaith y premiymau hyn. Aeth ymlaen i nodi y bydd gwaith yn cael ei wneud gydag awdurdodau lleol i gasglu tystiolaeth yn y maes hwn.

<u>Casgliadau a Chamau Gweithredu:</u>

- I gloi a nodi’r camau gweithredu arfaethedig, nododd AGW fod angen mwy o waith ymchwil a data, ac anogodd bawb i ymateb i'r ymgynghoriad. Ychwanegodd y dylai'r grŵp archwilio cofrestru statudol, yn ogystal â diffinio busnesau hunanarlwyo a’r gwahaniaeth rhwng y busnesau hyn ac ail gartrefi.
- Diolchodd SD i bawb am ddod ac anogodd bawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
- Daeth SR â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am fod yn bresennol. Diolchodd hefyd i DC am y cyflwyniad ar waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.